

## ARCHIFAU MORGANNWG

### ~COFRESTRI ETHOLIADOL ~

Cofrestri Etholiadol yw rhestri o'r bobl sy'n gymwys i bleidleisio mewn etholiadau seneddol ac mewn etholiadau llywodraeth leol. Defnyddir y cofrestri gan amlaf i:

- Ganfod am faint y bu teuluoedd yn byw mewn cyfeiriad
- Canfod faint o bobl ar aelwyd a oedd yn gymwys i bleidleisio
- Dod o hyd i unigolion oedd ar goll

#### **Beth maen nhw'n ei gynnwys?**

Cyn 1918 the roedd y cofrestri'n rhestru enwau etholwyr yn nhrefn y wyddor, ynghyd â'u cyfeiriad preswyl a manylion unrhyw gymwysterau oedd yn rhoi'r hawl iddynt bleidleisio (er enghraifft, tŷ annedd, swyddfeydd, tir a thenementau).

Ers 1918 newidiodd y drefn safonol i lunio cofrestri fesul stryd o fewn pob etholaeth a dosbarth etholiadol. Roedd y cymhwyster i bleidleisio yn cael ei nodi gan naill ai:

- Preswylfa (R)
- Safle busnes (B.P)
- Galwedigaeth (O)
- Galwedigaeth y gŵr (H.O)
- Pleidleisiwr llyngesol neu filwrol (N.M)

#### **Pwy allai bleidleisio a phryd?**

Cafodd cofrestri o etholwyr seneddol eu llunio gyntaf o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1832, ac maent wedi'u llunio bob blwyddyn ers hynny (ac eithrio 1916-1917 a 1940-1944).

*Mae'n bwysig cofio bod y rhestri'n cynnwys enwau'r rhai oedd yn gymwys i bleidleisio'n unig, ac nid oedd gan bawb dros 21 oed yr hawl i bleidleisio tan 1928.*

Gydol y 19eg ganrif, o ganlyniad i nifer o Ddeddfau Seneddol cynyddodd y nifer oedd â hawl i bleidleisio o leiafrif bach iawn o unigolion oedd yn berchen ar eiddo i gyfran fwy o'r boblogaeth. Fodd bynnag, roedd yr hawl i bleidleisio yn parhau i fod yn seiliedig ar gymhwyster eiddo a hyd yn oed ym mlynnyddoedd cynnar yr 20fed ganrif dim ond 60% o ddynion oedd â hawl i bleidleisio; nid oedd menywod yn cael pleidleisio o gwbl mewn etholiadau seneddol tan 1918.

Ers mor gynnar â 1429, rhoddwyd yr hawl i bleidleisio i bob dyn 21 oed neu fwy a oedd â thiroedd neu denementau rhydd-ddaliadol gwerth 40 swllt neu fwy. Mewn etholiadau bwrdeistref, roedd y cymhwyster i bleidleisio yn amrywio yn ôl traddodiad lleol. Cychwynnodd Ddeddf 1832 y broses o safoni'r etholfraint:

- *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, 1832* - Rhoddodd etholfraint i ddynion 21 oed oedd yn berchen ar eiddo gwerth £2 y flwyddyn o leiaf, sef dynion dosbarth canol fel arfer.
- *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, 1867* - Ymestynnwyd y bleidlais i ddynion oedd yn berchen ar neu'n rhentu eiddo gwerth £5 y flwyddyn o leiaf, a oedd yn cynnwys gweithwyr medrus a chrefftwyr a rhai ffermwyr oedd yn denantiaid.
- *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, 1884* – Ymestynnwyd yr hawl i bleidleisio i gynnwys dynion

oedd yn berchen neu'n aros mewn eiddo gwerth £10 y flwyddyn o leiaf; roedd hyn yn cynnwys gweithwyr gwledig.

- *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, 1918* - Caniataodd y Ddeddf hon i ganran uwch o lawer o'r boblogaeth i bleidleisio. Caniataodd i ddynion dros 21 oed oedd wedi byw yn yr etholaeth am dros 6 mis i bleidleisio, gan ymestyn y bleidlais i'r rhan fwyaf o ddynion. Gallai menywod 30 oed bleidleisio os oeddynt yn ddeiliaid cartref neu'n briod â deiliad cartref.
- *Deddf Etholfraint Gyfartal, 1928* - Caniataodd hon yr un hawliau pleidleisio i fenywod ag oedd gan ddynion. Roedd pob dyn a menyw dros 21 oed yn cael pleidleisio.
- *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, 1969* – Gostyngodd hon yr oed pleidleisio cyfreithiol o 21 oed i 18 oed (er na ymddangosodd y newidiadau tan gofrestri 1971).

### **Oedolion nad oedd yn gymwys i bleidleisio**

Er i ganran y boblogaeth oedd â hawl i bleidleisio barhau i dyfu gydol y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, roedd yna grwpiau mewn cymdeithas a phobl oedd â rhai galwedigaethau yn methu â phleidleisio, ac felly ni fyddent yn ymddangos ar gofrestri etholiadol. Roeddynt yn cynnwys:

- Arglwyddi'r Deyrnas
- Estroniaid, oni bai eu bod wedi dod yn ddinasyddion Prydeinig
- Tan 1887, roedd y rhai a oedd yn gwasanaethu fel heddwesion yn anghymwys
- Ni allai postfeistri bleidleisio tan 1918
- Unrhyw un oedd yn cyflawni dedfryd o garchar
- Gwirioniaid a gwallgofiaid
- Gwrthwynebwyr cydwybodol, 1918-1923
- Unrhyw un arall nad oedd yn bodloni'r amodau pleidleisio ar y pryd

### **Pleidleiswyr Absennol**

Caiff pobl nad oeddynt yn eu hetholaeth adeg etholiad eu galw'n "Bleidleiswyr Absennol"; y grŵp mwyaf o'r fath oedd aelodau'r lluoedd arfog. Cynhyrwyd rhestrï o Bleidleiswyr Absennol ar gyfer rhai etholaethau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ond nid oes rhai wedi'u cadw yn yr Archifdy. Cynhyrwyd cofrestrï'r lluoedd ochr yn ochr â chofrestrï sifiliaid rhwng 1945 a 1948.

## COFRESTRI ETHOLIADOL YN ARCHIFAU MORGANNWG

Mae gan Archifdy Morgannwg gofrestri etholiadol ar gyfer hen sir Forgannwg o tua 1840 i 1974, er bod yna fylchau yn y gyfres.

Mae cofrestri ar gyfer ardaloedd sy'n cael eu cwmpasu gan hen siroedd gweinyddol Canol a De Morgannwg ar gael ar gyfer 1974 i'r dydd heddiw. Mae'r Cofrestri ar gyfer Gorllewin Morgannwg o 1974 ymlaen yn cael eu cadw gan Wasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg yn Abertawe.

Tan 1974 roedd dau fath o etholfraint, etholfraint Bwrdeistref ac etholfraint Sir. Felly mae dwy gyfres wahanol o gofrestri:

### *Cofrestri ar gyfer Sir Forgannwg*

Mae cyfres Morgannwg yn cynnwys enwau etholwyr oedd yn gymwys i bleidleisio ar gyfer aelodau seneddol dros Sir Forgannwg.

### *Cofrestri Bwrdeistrefi*

O 1832, roedd trefi Caerdydd, Abertawe a Merthyr Tudful yn ethol eu haelodau seneddol eu hunain yn ffurfiol ar wahân i'r rhai dros y sir ac mae rhestr etholwyr yn y bwrdeistrefi hyn yn ffurfio cyfres wahanol. Roedd bwrdeistrefi Aberdâr a Rhondda wedi'u heithrio mewn modd tebyg o gyfres y sir o 1914/15 tan 1974 ar ôl iddynt ennill pwerau bwrdeistref seneddol.

Mae rhaniad y cyfresi Sir a'r Fwrdeistref yn dod i ben ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol ym 1974, ac wedi hynny mae'r cofrestri wedi'u trefnu yn ôl awdurdod lleol.

Mae'r hyn a gedwir yn yr archifdy ar gyfer bwrdeistrefi Aberdâr, Caerdydd, Merthyr Tudful a Rhondda, fel rhan o'r brif gyfres ac fel cyfres ar wahân, yn anghyflawn a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

Aberdâr	1840-1910, 1913, 1931-1937, 1939, 1945-1974
Caerdydd	1949-1950, 1952, 1955, 1957, 1959-1974
Merthyr Tudful	1840-1907, 1918, 1948, 1950, 1952, 1954-55, 1959-1974
Rhondda	1840-1914, 1950-1974

*Nid* yw rhai o'r cofrestri ar gyfer bwrdeistrefi sirol yn cael eu cadw yn Archifau Morgannwg ond maent ar gael yn y lleoliadau canlynol:

**Bwrdeistref Aberdâr:**

Llyfrgell Aberdâr,  
Green Street, Aberdâr,  
CF44 7AG

01685 880050  
aberdare.library@rhondda-cynon-  
taf.gov.uk

**Bwrdeistref Abertawe:**

Gwasanaeth Archif Gorllewin  
Morgannwg,  
Neuadd y Sir,  
Heol Ystumllwynarth, Abertawe,  
SA1 3SN

01792 636589  
archives@swansea.gov.uk

**Bwrdeistref Rhondda:**

Llyfrgell Treorci  
Station Road, Treorci,  
CF42 6NN

01443 773204/ 773592  
Treorchy.library@rhondda-cynon-  
taff.gov.uk

**Bwrdeistref Merthyr Tudful:**

Llyfrgell Merthyr Tudful,  
Stryd Fawr, Merthyr Tudful,  
CF47 8AF

01685 723057  
library.services@merthyr.  
gov.uk

**Bwrdeistref Caerdydd:**

Llyfrgell Ganolog Caerdydd,  
Lôn y Felin  
Caerdydd  
CF10 1FL

029 2038 2116  
centrallibrary@cardiff.gov.uk

**Fformat Cofrestri Etholwyr**

Roedd y ffordd o drefnu cofrestri etholwyr yn newid o bryd i'w gilydd, yn unol â newidiadau mewn llywodraeth leol. Mae'r tabl hwn yn dangos fformat y cofrestri ar ddyddiad arbennig, a bydd yn cynorthwyo wrth archebu cyfrolau yn yr ystafell chwilio:

<b>1840-1885</b>	1 cyfrol y flwyddyn yn cwmpasu sir Forgannwg gyfan.
<b>1886-1888</b>	3 cyfrol y flwyddyn, yn rhannu'r sir yn 5 rhanbarth: Dwyrain, De, Canol, Gŵyr a Rhondda.
<b>1889-1914</b>	2 gyfrol y flwyddyn wedi'u trefnu'n fras yn nhrefn y wyddor fesul dosbarth etholiadol. Maent yn cwmpasu'r sir a rhai bwrdeistrefi.  <i>Ac eithrio: 1889, 1894-95, 1914: mae'r rhain wedi'u rhwymo mewn 4-6 cyfrol a'u rhannu yn rhanbarthau'r Dwyrain, De, Gorllewin, Canol a Rhondda.</i>

<b>1915-1917</b>	Ni chynhyrchwyd unrhyw gofrestri, ac eithrio un ar gyfer Rhanbarth De Morgannwg ym 1915.
<b>1918-1974</b>	<p>7 cyfrol y flwyddyn ar gyfer etholaeth Morgannwg yn cwmpasu rhanbarthau:</p> <p>Aberafan      Llandaf a'r Barri      Ogwr  Caerffili      Castell-nedd      Pontypridd  Gŵyr</p> <p>Rhwng 1919 a 1926, cynhyrchwyd cofrestri ddwywaith y flwyddyn. Ni chynhyrchwyd unrhyw gofrestr rhwng 1940 a 1944.</p> <p>Mae cofrestri ar gyfer bwrdeistrefi Caerdydd, Merthyr Tudful, Abertawe Aberdâr a Rhondda (os ydynt ar gael) wedi'u rhwymo ar wahân.</p>
<b>1974-1978</b>	<p>12 cyfrol y flwyddyn yn cwmpasu rhanbarthau:</p> <p>Aberdâr  Caerdydd  Merthyr Tudful  Ogwr  Rhondda  Cwm Rhymni  Taf Elái  Bro Morgannwg</p>
<b>1979-1996</b>	<p>Cyfrolau fesul blwyddyn yn cwmpasu'r ardaloedd awdurdod lleol canlynol:</p> <p>Dinas Caerdydd  Bwrdeistref Cwm Cynon  Bwrdeistref Merthyr Tudful  Bwrdeistref Ogwr  Bwrdeistref Rhondda  Dosbarth Cwm Rhymni  Bwrdeistref Taf-Elái  Bwrdeistref Bro Morgannwg</p>

<b>1997- presennol</b>	<p>Cyfrolau fesul blwyddyn yn cwmpasu'r ardaloedd awdurdod lleol canlynol:</p> <p>Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CB) i 2001  Bwrdeistref Sirol Caerffili  Dinas a Sir Caerdydd (hyd at 2002 <i>yn unig</i>)  Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg</p>
----------------------------	--

### Gwybodaeth ychwanegol

#### *Nodyn am Benarth...*

Gall ardal Penarth gael ei chynnwys ar gofrestri Morgannwg neu gofrestri Bwrdeistref Caerdydd, yn dibynnu ar y dyddiad. Mae wedi'i chynnwys ar Gofrestr Morgannwg tan 1914, ond o 1918 i 1970, mae'n rhan o etholaeth Caerdydd, ac wedi'i chynnwys ar gofrestr De Ddwyrain Caerdydd. O 1971, mae Penarth ar gofrestri rhanbarth y Barri.

#### *Nodyn am Gaerdydd ...*

Roedd ardaloedd canlynol Caerdydd ar wahanol adegau y tu allan i Fwrdeistref Sirol Caerdydd, ac felly wedi'u cynnwys yn Rhanbarth Llandaf a'r Barri o gyfres Morgannwg (mae'r dyddiad mewn cromfachau yn nodi pryd ddaeth yr ardal yn rhan o'r fwrdeistref sirol):

Birchgrove (1922)	Llys-faen (1974)	Maendy (1922)
Trelái (1922)	Llandaf 1922)	Penylan (1922)
Y Tyllgoed (1922)	Ystum Taf (1922)	Rhiwbeina (1967)
Rhymni (1938)	Llaneirwg (1974)	Yr Eglwys Newydd (1967)

#### Pleidleiswyr y Brifysgol

Yn ogystal â'r brif gyfres o gofrestri, mae gan yr Archifdy Gofrestr Etholwyr Prifysgol Cymru ar gyfer Etholiadau Seneddol, 1938

### Dyddiadau Cymhwysu

Mae'r flwyddyn a roddir ar y gofrestr etholiadol yn cyfeirio at y flwyddyn y daeth i rym, tra bo'r dyddiad cymhwysu ar gyfer cynnwys ar y gofrestr fel arfer yn y flwyddyn flaenorol. O ran achyddion, y dyddiad cymhwysu yw'r pwysicaf gan ei fod yn dangos pwy sydd berchen, yn meddiannu neu'n byw mewn cyfeiriad arbennig ar neu cyn y dyddiad hwnnw. Mae'n bosibl bod llawer o bleidleiswyr wedi marw neu symud erbyn i'r gofrestr ddod i rym.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y prif newidiadau i'r dyddiadau cymhwysu a'r dyddiad y daeth y cofrestr i rym:

O	Dyddiad Cymhwysu	Dyddiad dod i rym
1832	31 Gorffennaf	1 Rhagfyr
1843	31 Gorffennaf	30 Tachwedd
1867	31 Gorffennaf	1 Ionawr
1878	15 Gorffennaf	1 Ionawr
1885	31 Gorffennaf	1 Ionawr
1918	15 Ionawr a 15 Gorffennaf	15 Ebrill a 15 Hydref
1926	15 Gorffennaf	15 Hydref
1928	1 Rhagfyr	1 Mai 1929
1929	1 Mehefin	15 Hydref
1948	20 Tachwedd a 15 Mehefin	16 Mawrth a 1 Hydref
1949	20 Tachwedd	16 Mawrth
1953	10 Hydref	16 Chwefror

Rhestri cynharach o bleidleiswyr

### Rhestri o Rydd-ddeiliaid

Ers Deddf Uno 1536, roedd Morgannwg yn cael ei chynrychioli gan un AS, wedi'i ethol gan rydd-ddeiliaid yn y sir. Mae'r rhestri o rydd-ddeiliaid wedi'u trefnu fesul cantref, yna fesul plwyf, ac yn cynnwys enwau'r rhai sy'n gymwys i bleidleisio ar gyfer cynrychiolydd Morgannwg yn unig.

Mae'r rhestri canlynol yn cael eu cadw yn yr archifdy:

- Rhestr o rydd-ddeiliaid, 1772 (DXGC265/2)
- Etholiad Rhydd-ddeiliaid Morgannwg, 1744/5 (DXGC265)
- Rhestr yn nhrefn y wyddor o Rydd-ddeiliaid ym Morgannwg, 1820 (Q/D/R4)
- Rhestr yn nhrefn y wyddor o bleidleiswyr yn y sir, ar ôl 1819 (Q/D/R5)

### Llyfrau Etholiadau

Cynhyrchwyd llyfrau etholiadau i ddangos yn gyhoeddus y pleidleisiau a fwriwyd mewn etholiadau seneddol. Maent yn cynnwys rhestri o bleidleiswyr mewn unrhyw etholiad, ac yn nodi manylion eu preswylfa a'u galwedigaeth fel arfer. Gallant hefyd nodi i ba ymgeisydd y gwnaethant bleidleisio. Fodd bynnag, maent yn cynnwys y rhai a ddefnyddiodd eu pleidlais yn unig yn hytrach na'r rhai a oedd yn gymwys.

Mae gan yr archifdy lyfrau Etholiad ar gyfer yr etholiadau canlynol:

- Etholiadau Sir, 1756 (Q/D/R1)
- Etholiadau Sir, 1820 (Q/D/R2)
- Etholiadau Caerdydd, 1820 (Q/D/R3)
- Llyfr etholiad ar gyfer ethol AS dros Fwrdeistref Caerdydd a bwrdeistrefi cyfrannol y Bont-faen a Llantrisant, Tachwedd 1868 (DX400/2)